

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Abertillery Dental

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ebrill 2026

Dyddiad cyhoeddi: 14 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-011-1

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C – Cynllun gwella	23



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Abertillery Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 13 Ebrill 2026. Roedd y lleoliad hwn yn rhan o Knights Dental Group.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur gan gleifion a chwblhawyd saith gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan y cleifion i holiadur AGIC yn gadarnhaol, a dywedodd pob ymatebydd fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn'.

Dywedodd y cleifion hefyd fod y practis yn eu trin ag urddas a pharch, a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd yr unigolion a atebodd holiadur staff AGIC fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a bod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Roedd deunyddiau hybu iechyd ar gael yn hwylus, ac roedd dogfennaeth ar gael yn Gymraeg lle y bo'n bosibl. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i alluogi clinigwyr a chleifion i gyfathrebu'n effeithiol. Dywedodd y cleifion wrthym fod iechyd y geg yn cael ei esbonio'n glir iddynt, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol.

Gwelsom fod prosesau rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith a oedd yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Nododd yr ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Roedd y practis yn defnyddio system brysennu cleifion dros y ffôn drwy hyb y practis yng Nghaerdydd er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Gwelsom fod y practis hefyd yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Mynediad Brys y GIG.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael gofal amserol
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan y staff a'r cleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd yr holl gyfarpar deintyddol ac amgylchedd y practis yn lân yr olwg, ac roedd modd eu dihalogi'n effeithiol. Dywedodd y sawl a atebodd holiadur staff AGIC fod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn briodol i sicrhau y gallent gyflawni eu rolau'n effeithiol a sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi cyfarpar aml dro yn gadarn, a oedd yn galluogi'r practis i roi gofal diogel i'r cleifion. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd i'r holl staff a dywedodd y staff wrthym fod PPE priodol yn cael ei

gyflenwi a'i ddefnyddio.

Roedd yr holl drefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch ar gyfer y practis yn briodol ac yn galluogi'r cleifion i gael gofal diogel mewn lleoliad diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff bob amser yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau a bod y practis yn 'lân iawn'.

Roedd yr holl gyfarpar brys ar gael yn y practis ac roeddent o fewn y dyddiadau defnyddio. Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol ar adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân
- Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi darlun clir a chynhwysfawr o'r gofal a roddir i'r cleifion
- Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a oedd yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi ac yn gweithio gyda'r cymysgedd sgiliau cywir. Roedd y gweithdrefnau sefydlu yn gadarn ac roedd rheolwyr y practis yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y staff.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn gynhwysfawr ac yn bodloni'r gofynion addasrwydd i weithio. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwybod â phwy i siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon. Roedd yr holl adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Ychwanegodd yr ymatebwyr y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo a phe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis.

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a oedd â'r nod o lywio gwelliant parhaus a chyflawni canlyniadau gwell i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gadarn a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd

- Roedd y practis yn casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, yn ei adolygu ac yn gweithredu arno.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom setiau teledu yn y ddwy ardal aros i gleifion a oedd yn hysbysebu ffyrdd o gadw'r geg yn iach ac adnabod symptomau canser y geg yn ogystal â gwybodaeth arall am hybu iechyd. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld yn y dderbynfa ac ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardaloedd aros y cleifion. Roedd enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ynghyd ag oriau agor y practis a manylion cyswllt brys y practis, i'w gweld yn glir y tu allan i'r adeilad.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad, a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Dywedodd yr unigolion a atebodd holiadur staff AGIC fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, bod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal y maent yn ei roi i'w cleifion.

Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau. Gwelsom fod y practis wedi gosod ffenestri newydd yn ddiweddar fel rhan o waith adnewyddu helaeth. Roedd gorchudd barugog yn cael ei osod ar y ffenestri hyn yn y deintyddfeydd ar adeg yr arolygiad a chadarnhaodd y practis fod y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad. Roedd y mesurau hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd wrth i'r staff a'r cleifion ryngweithio. Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros wedi'u cysylltu ond ni wnaethom glywed unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod wyneb yn wyneb na thros y ffôn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod deintyddfeydd yn cael eu defnyddio pan oedd angen cynnal sgysiau cyfrinachol.

Roedd contractau'r practis yn cynnwys cymal cyfrinachedd a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff i ddiogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y cyntedd wrth y fynedfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Dywedodd y cleifion fod y staff wedi esbonio iechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Dywedodd yr ymatebwyr bod y costau wedi cael eu cyflwyno'n glir iddynt cyn y driniaeth a'u bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud os bydd haint neu argyfwng a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn gwybod sut i gael gafeael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod prosesau rheoli apwyntiadau cadarn ar waith a oedd yn defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Esboniodd y staff fod cyfnod aros o ryw bythefnos rhwng apwyntiadau am driniaethau. Gwelsom fod y lleoliad yn defnyddio apwyntiadau roedd cleifion yn eu methu neu'n eu canslo er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn ffordd mor amserol â phosibl.

Roedd y cleifion yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiad neu dros y ffôn ac roedd modd trefnu apwyntiadau arferol ar-lein hefyd. Dywedodd y staff wrthym nad oedd apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr yn aml iawn ond os oedd hynny'n digwydd, roedd y clinigwyr yn hysbysu'r dderbynfa fel y gellid rhoi gwybod i'r cleifion. Byddai apwyntiadau amgen yn cael eu cynnig ar gais. Nododd yr ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi ei chael hi'n 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Clywsom fod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar adeg gyfleus i'r cleifion lle bo hynny'n bosibl.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio system brysennu cleifion dros y ffôn drwy hyb y practis yng Nghaerdydd er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny roedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Gwelsom fod y practis hefyd yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Mynediad Brys y GIG. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei roi i'r cleifion allu

cysylltu â'r practis mewn argyfwng.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd Language Line yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r cleifion yn ôl y gofyn, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu dogfennaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd ar gael er mwyn helpu i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith i gleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd, ond bod hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o'r staff a oedd yn awyddus i ddysgu.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd gan y practis bolisiâu addas ar waith i hyrwyddo hawliau a thriniaeth gyfartal y cleifion a'r staff. Roedd y staff yn cael hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisi dim goddefgarwch i ymddygiad ymosodol a thrais ar waith i ddiogelu'r staff rhag ymddygiad sarhaus.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion. Roedd y rhain yn cynnwys system dolen sain i gleifion ag anawsterau clywed. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffeirir ganddynt ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan, yn daclus ac wedi'i orffen i safon uchel yn ddiweddar. Roedd y sawl a atebodd holiadur staff AGIC yn teimlo bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn briodol i sicrhau y gallent gyflawni eu rolau'n effeithiol a sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt. Roedd y practis wedi'i drefnu dros dri llawr, gyda dwy ardal aros o faint rhesymol ar gyfer nifer y cleifion a'r pedair deintyddfa. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom ardaloedd newid addas â chyfleusterau storio personol ar gael i'r staff. Gwelsom fod toiledau'r staff a'r cleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Gwelsom fod toiled y cleifion ar y llawr gwaelod yn addas i unigolion ag anawsterau symudedd.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod ganddynt y deunyddiau, y cyfarpar a'r cyflenwadau i wneud eu gwaith. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol, ac roedd y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blyneddol. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau a'u bod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu clir. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau boddhaol ar waith a oedd yn helpu i gynnal safon uchel o lendid ym mhob rhan o'r practis. Roedd y dogfennau y gwnaethom edrych arnynt yn nodi'r prosesau roedd disgwyl i'r staff eu dilyn er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol, a gwelsom eu bod yn dilyn y prosesau hynny ym mhob maes. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a'u bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod o'r staff. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur staff AGIC fod cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio. Roedd arferion hylendid dwylo cyffredinol yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau cadarn ac ar arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy'r bwrdd iechyd lleol, ac roedd y manylion hyn ar gael yn hwylus i'r staff. Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael iddynt.

Gwelsom fod cyfarpar ac amgylchedd y practis yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel fel bod modd glanhau a dihalogi offer aml dro yn effeithiol. Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg staff fod amserlenni glanhau effeithiol ar waith a bod yr amgylchedd yn golygu bod modd rheoli heintiau'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio'r offer hwn yn yr ystafell ddihalogi yn gadarn. Roedd peiriant awtoclaf newydd wedi cael ei osod yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom edrych ar gofnodion o wiriadau dyddiol o gylchred yr awtoclaf a phrofion ar gyfer y peiriant, ond nid oedd tystiolaeth ar gael ar y pryd bod profion cynhwysydd gwasgedd yn cael eu cynnal. Anfonwyd y dystiolaeth hon at AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir mewn perthynas â dihalogi cyfarpar. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir o dan gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gynhwysfawr. Gwelsom fod mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod pedwar aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys a bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio pe bai argyfwng.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r

polisi hwn. Roedd diweddariadau i'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfleu drwy hyfforddiant a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion, ac roedd sawl aelod o'r tîm wedi cael hyfforddiant hyd at lefel 3.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod yr holl ddyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn addas at y diben. Gwelsom fod holl ddyfeisiau a chyfarpar y practis yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion y cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion y cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y triniaethau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt, ynghyd â rhestrau gwirio cynhwysfawr er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys proses addas ar gyfer cofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth, profion sgrinio ar gyfer canser y geg, proses siartio sylfaenol lawn, yn ogystal â disgrifiad ar y pryd o'r triniaethau a roddwyd. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol, gan gynnwys therapydd a hylenydd y practis. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain mewn modd amserol gan y clinigwyr. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd yr holl adborth a gawsom gan y staff yn gadarnhaol. Dywedodd y staff wrthym mai gofalu am y cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis deintyddol. Ychwanegodd yr ymatebwyr y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio ynddo a phe bai angen gofal deintyddol ar ffrind neu berthynas, byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir yn y practis.

Dywedodd y sawl a atebodd yr holiadur nad yw eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, bod y practis yn gweithredu'n gadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant, a bod eu patrwm gwaith yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i redeg y practis yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis, er ei fod yn newydd i'r swydd, yn hyderus a dywedodd wrthym ei fod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rôl arwain yn effeithiol. Roedd y rheolwr yn cael ei gefnogi gan reolwr busnes grŵp Knights a pherchennog y grŵp. Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent fynd at y rheolwyr i drafod newidiadau neu welliannau.

Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal unwaith y mis a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Gwelsom hefyd gofnodion cyfarfod diweddar rhwng tîm nyrsio'r practis i drafod materion clinigol. Ar ôl edrych ar gofnodion yr holl gyfarfodydd ffurfiol sy'n cael eu cynnal yn y practis, gwelsom fod trafodaethau yn cael eu cynnal am iechyd a diogelwch, adborth gan gleifion a threfniadau rheoli cofnodion. Nodwyd hefyd fod y practis yn cynnal cyfarfodydd 'archwiliad dwfn' i drafod pynciau penodol â'r staff.

Roedd system ddigidol addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd rheolwr y practis yn rhannu hysbysiadau diogelwch â'r staff yn ystod cyfarfodydd, a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd pob un o bolisiau'r practis yn cael eu cadw ar ffurf copi caled mewn ffolderi a oedd yn cael eu cynnal yn dda ac a oedd yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt a'u darllen. Roedd pob polisi ar gael ar-lein hefyd. Roedd y polisiau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn cefnogi ei gilydd yn gadarn. Dywedodd y sawl a atebodd holiadur staff AGIC fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn a bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu bodloni gofynion croes ar eu hamser yn y gwaith ac yn gallu defnyddio'r systemau digidol sydd eu hangen arnynt i roi gofal da i'r cleifion.

Roedd y gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Roedd arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac eglurodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad.

Gwnaethom adolygu cofnod tri aelod o staff allan o'r 12 a oedd yn gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer a'u bod wedi bod yn destun gwiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei gofnodi yn ffeil pob aelod o'r staff ar ddechrau eu cyflogaeth. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hunanddatganiadau yn cadarnhau nad oedd unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu gwiriad DBS gwreiddiol.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd yr holl aelodau o staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl ac wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd gan reolwr y practis system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon. Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Dywedodd y staff hefyd y byddent yn cael eu trin yn deg, ac y byddai'r practis yn cymryd camau i sicrhau na fyddai digwyddiadau'n codi eto. Yn ogystal, dywedodd ymatebwyr pan fo pethau'n mynd o chwith, eu bod yn cael eu hannog i rannu'r wybodaeth hon â'r cleifion.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd blwch awgrymiadau ar gael i gleifion yn y dderbynfa, ac roedd adolygiadau ar-lein yn cael eu defnyddio hefyd. Roedd y cleifion yn derbyn neges destun yn gofyn iddynt lenwi arolwg cleifion yn dilyn eu hapwyntiad. Clywsom fod y blwch awgrymiadau yn cael ei adolygu bob mis, a bod ffurflenni ar-lein yn cael eu gwirio pan oedd rheolwr y practis yn eu derbyn. Roedd ymatebion i adborth yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn ardaloedd aros y cleifion. Roedd y practis a rheolwyr y grŵp yn archwilio adborth gan gleifion bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn nodi unrhyw themâu cyffredin ac yn mynd i'r afael â nhw.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd â Phroses Cwynion, Digwyddiadau ac lawndal GIG Cymru ac roedd ar gael i gleifion heb fod angen iddynt ofyn am gopi. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi ar system cwynion y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, sef Llais. Dywedodd y sawl a ymatebodd i holiadur staff AGIC eu bod yn deall y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u rôl o ran cyrraedd y safonau. Gwelsom fod polisi'r practis yn addas a bod hyfforddiant ar gael i'r staff. Er nad oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd y byddai'r broses a oedd ar waith yn ymdrin â nhw'n unol â'r canllawiau gofynnol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod y practis yn cwblhau gweithgareddau gwella ansawdd rheolaidd er mwyn llywio gwelliant parhaus. Roedd y rhain yn cynnwys ansawdd delweddau radiograffeg, cadw cofnodion cleifion, presgripsiynu gwrthfotigau, rheoli heintiau a gwastraff gofal iechyd. Gwelsom fod y practis wedi cysylltu'n rhagweithiol ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ymgymryd â'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ac archwiliadau rhoi'r gorau i smygu integredig. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi cael unrhyw ymateb i'w ohebiaeth eto. Yn ogystal, roedd y practis yn aros am gadarnhad gan AaGIC ynghylch statws archwiliad rheoli heintiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yr oedd wedi gwneud cais i'w gwblhau. Gwnaethom hysbysu'r practis y dylai barhau i ymgysylltu ag AaGIC er mwyn cwblhau'r archwiliadau hyn ac y dylai hefyd fanteisio ar gymorth ei bractisau partner i'w helpu i gwblhau'r gweithgareddau gwella ansawdd angenrheidiol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau at bartneriaid gofal iechyd ac atgyfeiriadau gan bartneriaid gofal iechyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Abertillery Dental

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Abertillery Dental

Dyddiad yr arolygiad: 13 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.					